**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Medi 2015**

## FFRAMWAITH CENEDLAETHOL Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB O 2016 YMLAEN

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i Aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub.

## Cefndir

2 Dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub, ac ymgynghori yn ei gylch.

3 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hyd at 8 Hydref 2015 ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer 2016 ymlaen. Mae hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Gwybodaeth

4 Mae'r Fframwaith drafft yn egluro gweledigaeth, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ATA yng Nghymru. Cafodd y Fframwaith Cenedlaethol ei adolygu ddiwethaf a'i ailgyhoeddi yn 2012. Mae'r fersiwn newydd hon o'r Fframwaith yn canolbwyntio ar y cyd-destun newidiol y mae'r ATA yn gweithredu ynddo a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Y tair prif agwedd ar hyn yw:

- poblogaeth sy'n heneiddio a goblygiadau hyn ar gyfer risg tân;
- newid pwyslais parhaus o wasanaethau ymatebol (ymladd tân) i wasanaethau ataliol (diogelwch tân ac atal tân); a
- phwysau difrifol ar gyllid cyhoeddus yn y tymor canol a'r tymor hir.

5 Mae'r Fframwaith yn pennu'r amcanion allweddol canlynol ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub:
   - lleihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau yn barhaus ac mewn ffordd gynaliadwy;
   - ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ddigwyddiadau;
   - bod yn atebol mewn ffordd glir a chyhoeddus am gyflawni ac am gyllid, gan ddangos y safonau llywodraethu uchaf;
   - parhau i gadw costau i lawr a chymryd pob cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd;
   - gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd a gwella lles dinasyddion a chymunedau;
   - gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu i'r safonau uchaf.

6 Anfonwyd e-bost ar yr holl Aelodau ar 13 Awst 2015 gyda dolen i’r ddogfen ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Gwahoddir Aelodau i gyflwyno sylwadau unai yng nghyfarfod yr ATA neu drwy e-bostio’r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn 28 Medi 2015.

## Argymhelliad

7 Bod yr Aelodau’n:

(i) nodi’r wybodaeth a ddarperir, ac yn

(ii) dirprwyo awdurdod i’r Prif Swyddog Tân, ar y cyd â’r Cadeirydd, i gyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod erbyn y dyddiad cau sef 8 Hydref 2015.